Cyfrifiad Prawf 2007

Cwestiynau, Cwestiynau, Cwestiynau: Beth fydd Prawf y Cyfrifiad yn ei Ofyn a Pham?

Eich rôl wrth lunio'r Cyfrifiad

Gall rhai cwestiynau newid eich bywyd. Mae 'Wnei di fy mhriodi i?' yn un ohonynt. Gall rhai eraill, fel 'Beth sydd i swper?', ymddangos yn bwysig ar y pryd, ond ni fyddant yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn y pen draw.

Ar y cyfan, mae'r cwestiynau ym Mhrawf y Cyfrifiad 2007 mewn categori rhwng y ddau fath yma o gwestiwn. Pan fyddwch yn derbyn eich holiadur Prawf y Cyfrifiad, efallai y byddwch yn meddwl pam rydym yn holi am bethau fel faint o ystafelloedd sydd gennych, neu faint o geir neu faniau sydd ar gael i'w defnyddio gan aelodau o'ch cartref. Ac eto, gall atebion i'r cwestiynau yma gynnig gwybodaeth allweddol i ni gael gwybod a yw tai wedi eu gorlenwi a bod yn sail i well cynllunio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.

Sut byddwn ni'n asesu'r Prawf

Rydym yn profi cwestiynau newydd a rhai sydd wedi eu diwygio ers 2001. Ar sail yr hyn y byddwn yn ei ddarganfod o'r Prawf a'r cwestiynau sydd wedi gweithio'n dda mewn blynyddoedd blaenorol, bydd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys:

- rhai cwestiynau o Brawf y Cyfrifiad 2007
- rhai o Gyfrifiad 2001 ond nad ydynt wedi eu profi y tro hwn ac
- eraill a ddatblygwyd trwy raglen o brofi ar raddfa fechan

Sut bydd cwestiynau Prawf y Cyfrifiad yn gweithio

Mae holiadur Prawf y Cyfrifiad yn cynnwys 13 cwestiwn am eich cartref a'ch llety. Wedyn mae uchafswm o 30 cwestiwn i bob unigolyn (oedolion a phlant) sy'n byw yn y cartref ac y dylai aelod cyfrifol o'r cartref eu llenwi.

Nod y cwestiynau yw creu darlun mor fanwl â phosibl o bobl, cartrefi a thai yng Nghymru a Lloegr. Dewiswyd yr holl gwestiynau wedi cyfnod o weithio agos rhwng y llywodraeth ganolog a lleol, prifysgolion, awdurdodau iechyd, y gymuned fusnes, grwpiau'n cynrychioli lleiafrifoedd ethnig ac eraill â diddordebau neu bryderon arbennig. Er mwyn cael eu cynnwys yn 2011, rhaid i'r cwestiynau fodloni anghenion nifer o ddefnyddwyr, bod yn dderbyniol i'r cyhoedd a chynhyrchu data o ansawdd da.

Mae'r cwestiynau sydd i'w profi yn 2007 yn cynnwys:

- Hunaniaeth genedlaethol – ydych chi'n dod o gefndir Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon, Gwyddelig neu rywbeth arall
- Iaith - a ydych yn siarad Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydeinig ac ieithoedd eraill? Yng Nghymru, gofynnir i bobl pa mor aml y maent yn defnyddio'r iaith Gymraeg
- Ail gyfeiriad – a oes gennych ail gyfeiriad, pam rydych yn aros yno a faint o amser ydych chi'n ei dreulio yno

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

Ystadegau Gwladol

PUB FS 05T (W)

Cyfrifiad Prawf 2007

Cwestiynau – pam maen nhw'n cael eu gofyn a sut mae'r atebion yn cael eu defnyddio?

Tasg bwysicaf y Cyfrifiad yw darparu cyfrif cywir o'r boblogaeth a'r math o bobl sydd yn y wlad a ble maent yn byw. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu faint o arian sydd ganddynt i'w wario, pan fyddant yn cynllunio gwasanaethau cyhoeddus.

Pam mae arnoch chi angen gwybod am fy llety?

Y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell genedlaethol o wybodaeth am dai, y gellir ei chymharu ar lefel leol. Gall gwybodaeth o gwestiynau fel y math o dŷ yr ydych yn byw ynddo, faint o ystafelloedd sydd gennych, a ydych yn rhannu ystafelloedd â chartref arall ac a oes gennych wres canolog, gael ei rhoi gyda data am y nifer a'r math o bobl sydd mewn cartref i roi gwybodaeth am orlenwi, ansawdd tai ac amddifadedd.

Bydd yr ystadegau hyn yn rhoi gwybodaeth i lywodraeth leol a chanolog am anghenion tai cyfredol a rhai'r dyfodol ac yn cyfrannu at ddyrannu grantiau gwella.

Pam mae arnoch chi angen gwybod faint o geir neu faniau sydd ar gael i fy nghartref?

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynllunio trafnidiaeth gyhoeddus a datblygu polisïau trafnidiaeth fel parcio.

Pam mae arnoch chi angen gwybod pa ryw wyf fi, fy nyddiad geni ac a wyf yn briod ai peidio?

Gall nifer y bobl sy'n cael eu cyfrif yn ôl rhyw, oedran a statws priodasol olygu bod awdurdodau lleol yn gallu cynllunio yn ôl y mathau gwahanol o gartrefi yn eu hardaloedd, fel y rhai gyda phensiynwyr, plant neu bobl sengl.

Mae'r data hefyd yn cynnig sylfaen ar gyfer mesur newidiadau a chyfrifo'r gyfradd afiechyd, marwolaeth, ffrwythlondeb, priodas, partneriaethau sifil ac ysgariad.

Pam mae hi mor bwysig gwybod i ba grŵp ethnig yr wyf yn perthyn?

Bydd gwybodaeth o'r cwestiwn grŵp ethnig yn caniatáu i lywodraeth genedlaethol a lleol ac awdurdodau iechyd ystyried anghenion arbennig grwpiau o leiafrifoedd ethnig wrth ddarparu adnoddau a chynllunio gwasanaethau. Bydd ymatebion i'r cwestiwn yn cynnig ffigurau llinell sylfaen i'r llywodraeth fedru monitro a yw'r holl grwpiau ethnig yn cael eu trin yn gydradd.

Sut mae'r wybodaeth am grefydd yn cael ei defnyddio?

Defnyddir gwybodaeth am grefydd i sicrhau bod pobl o wahanol gredoau yn cael eu trin yn gydradd. Mae'r llywodraeth yn defnyddio'r data i ddyrannu adnoddau a monitro polisïau.

Pam mae'n rhaid i mi ddweud am fy nghymwysterau?

Mae gwybodaeth am gymwysterau yn caniatáu i'r llywodraeth ddyrannu adnoddau i wella sgiliau mewn meysydd penodol a chynllunio gwasanaethau addysg.

Ffôn
0845 603 2011

Ffôn testun (i bobl â nam ar eu clyw)
0845 604 2011

Y We
www.statistics.gov.uk/censustest

Ystadegau Gwladol

PUB FS 05T (W)